# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA
# CYNGOR SIR FYNWY

| |
|---|
| Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn i chi wybod beth fydd Cyngor Sir Fynwy yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth bersonol.<br><br>Cyngor Sir Fynwy yw'r Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth, a'r cyfeiriad cyswllt yw:<br><br>Cyngor Sir Fynwy<br>Neuadd y Sir<br>Y Rhadyr<br>Brynbuga<br>NP15 1GA<br><br>Dyma fanylion Swyddog Diogelu Data Sir Fynwy:<br>Kathryn Evans<br>01633 644307<br>dataprotection@monmouthshire.gov.uk |

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddiaeth:** | Twristiaeth, Hamdden a Diwylliant |
| **Gwasanaeth:** | Amgueddfeydd |
| **Manylion Cyswllt::** | 01600 710630<br>**dataprotection@monmouthshire.gov.uk** |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Rhestr Cysylltiadau Ymholiadau'r Amgueddfa |

Eich hawliau RhDDC a Diogelu Data yw:

- Mae gennych hawl i gael eich hysbysu am eich gwybodaeth bersonol
- Mae gennych hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol
- Mae gennych hawl i ofyn i ni gywiro eich gwybodaeth
- Mae gennych hawl i ofyn i'ch gwybodaeth gael ei dileu yr hawl i gael ei anghofio
- Mae gennych hawl i ofyn i ni gyfyngu ar y prosesu/beth rydym yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth bersonol
- Mae gennych hawl i ofyn am eich gwybodaeth mewn fformat cludadwy
- Mae gennych hawl i wrthwynebu i ni brosesu eich gwybodaeth
- Mae gennych hawliau mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad awtomataidd a wneir amdanoch
- Mae gennych hawl i wneud cwyn i'r Awdurdod goruchwylio, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ico.org.uk). Gallwch hefyd wneud cwyn i ni'n uniongyrchol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt yn yr hysbysiad hwn
- Os roesoch eich caniatâd i ni mae gennych yr hawl i'w dynnu'n ôl ar unrhyw adeg

Sut wnaethom gasglu'r wybodaeth hon amdanoch chi?

Rydym yn casglu'r wybodaeth hon gennych yn uniongyrchol

# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA
# CYNGOR SIR FYNWY

| |
|---|
| Pa fath o wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu amdanoch chi?<br><br>Enw a manylion cyswllt |
| Sut ydym yn casglu'r wybodaeth hon?<br><br>Ffurflenni cais neu drwy eich ymholiad i ni. |
| I gasglu a phrosesu eich gwybodaeth bersonol, mae'n rhaid i ni gael rheswm a sail gyfreithiol.<br><br>Mae gennym eich cydsyniad y gallwch ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg |
| Beth fyddwn ni'n ei wneud â'ch gwybodaeth bersonol, gyda phwy y byddwn ni'n ei rhannu?<br><br>*Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Sir Fynwy.*<br>*Ebost: dataprotection@monmouthshire.gov.uk*<br><br>*Efallai y bydd Rheolwyr Data Eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Gwasanaeth am ragor o wybodaeth.*<br><br>***Dyma'r adrannau rydym yn rhannu eich data â nhw'n fewnol:***<br>*Amgueddfeydd*<br><br>***Mae yna amgylchiadau lle mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i rannu'ch gwybodaeth gyda'r canlynol:***<br><br>*Asiantaethau Gorfodaeth Gyfreithiol y Llywodraeth e.e. gyda'r Heddlu o dan y Ddeddf Atal neu Ganfod Troseddau.*<br><br>***Ceisiadau am wybodaeth***<br><br>*Gall yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Sir Fynwy fod yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol gan gynnwys unrhyw gyfraith Diogelu Data arall.*<br><br>*Os yw'r wybodaeth a ddarperir gennych yn agored i gais o'r fath, lle y bo'n bosibl, bydd Cyngor Sir Fynwy yn ymgynghori â chi o ran ei datgelu. Os ydych yn gwrthwynebu datgelu'ch gwybodaeth, byddwn yn atal eich gwybodaeth os yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu hynny.* |
| Byddwn yn storio ac yn cadw eich data am gyfnod penodol, neu weithiau os oes rheswm cyfreithiol efallai na fyddwn byth yn dileu eich gwybodaeth.<br><br>*Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am 3 blynedd.   Os yw'r wybodaeth yn ymwneud â thrafodion ariannol byddwn yn cadw'r cofnodion hynny am 7 mlynedd.* |

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA
## CYNGOR SIR FYNWY

Sut ydym ni'n cadw'ch gwybodaeth yn ddiogel?

Mae gwybodaeth yn cael ei chadw yn ein ffeiliau ymholiadau a dim ond staff yr amgueddfa sy'n cael mynediad atynt. Os ydym wedi gohebu â chi drwy e-bost mae'r wybodaeth honno ar ein cyfrifiaduron a dim ond staff yr amgueddfa sy'n cael mynediad atynt.

Os byddwch yn trosglwyddo'r data allan o'r UE, rhaid i chi esbonio yma a'r mesurau diogelwch sydd gennych ar waith.

| | |
|---|---|
| **Rhif Hysbysiad Preifatrwydd:** | 03/08/19 |
| **Dyddiad Llunio:** | 01/10/2019 |
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | |
| **Rhif y Fersiwn:** | |

---

Rhaid i Hysbysiadau Preifatrwydd gael eu cymeradwyo a'u llofnodi gan y Pennaeth Gwasanaeth gyda chyngor gan y Swyddog Diogelu Data
Ar ôl cael ei awdurdodi, cysylltwch ag Alanburkitt@monmouthshire.gov.uk ar gyfer materion cyfieithu Cymraeg/Saesneg.
(Oherwydd y niferoedd uchel a ragwelir, a wnewch chi aros o leiaf wythnos cyn dychwelyd dogfennau)